# Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol

## Hyrwyddo cystadleuaeth rhwydwaith band eang cyflym iawn a gwibgyswllt

---

**Ymgynghoriad:**

Dyddiad Cyhoeddi: 1 Rhagfyr 2017

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 12 Ionawr 2018

# Gair am y ddogfen hon

Ar 31 Mawrth 2017 fe gyhoeddon ni ein cynigion ar gyfer rheoleiddio’r farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol (WLA), a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau rhyngrwyd band eang a ffôn (gan gynnwys band eang cyflym iawn) i ddefnyddwyr preswyl a busnes. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym ym nodi cynigion pellach ar gyfer hyrwyddo cystadleuaeth ar gyfer gwasanaethau cyflym iawn a gwibgyswllt drwy atal BT rhag targedu ffioedd cyfanwerthu gostyngol lle y mae cystadleuwyr yn dechrau adeiladu rhwydweithiau newydd.

Lluniwyd ein cynigion i annog buddsoddi mewn rhwydweithiau gwibgyswllt, hyrwyddo cystadleuaeth a chyflawni buddion ar gyfer defnyddwyr.

Rydym wedi nodi 12 Ionawr 2018 fel y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno ymatebion i’r ymgynghoriad hwn.

Byddwn yn ystyried ymatebion i’r ymgynghoriad pellach hwn cyn llunio ein casgliadau terfynol a chyhoeddi ein datganiad ar yr adolygiad yn gynnar yn ystod 2018, gyda mesurau newydd i ddod i rym ar 1 Ebrill 2018.

# Cynnwys

## Adran

1. Crynodeb gweithredol 1

# 1. Crynodeb gweithredol

1.1 Ar 31 Mawrth 2017, fe gyhoeddon ni nifer o ddogfennau'n nodi ein cynigion ar gyfer rheoleiddio'r farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol (WLA) yn y DU gan eithrio Ardal Hull o 1 Ebrill 2018 ymlaen (Ymgynghoriad Mynediad Lleol Cyfanwerthol Mawrth 2017).[1] Bu i ni nodi ein barn fod BT yn parhau i fod â grym sylweddol yn y farchnad (SMP) yn y farchnad honno ac aethom ymlaen i gynnig cyfres o atebion a luniwyd i fynd i'r afael â'n pryderon yn codi o SMP BT.

1.2 Fe rhan o'n strategaeth hirdymor ar gyfer marchnadoedd cyfathrebu digidol, ac er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon o ran cystadleuaeth yn codio SMP BT, rydym wedi llunio ein hatebion arfaethedig gyda golwg ar hyrwyddo mwy o gystadleuaeth yn y seilwaith. Un ffordd bwysig y gall cystadleuaeth seilwaith gyflawni buddion sylweddol i ddefnyddwyr yw drwy hyrwyddo mwy o arloesi, yn enwedig cyflwyno rhwydweithiau gwibgyswllt yn gynt.

1.3 Rydym yn dechrau gweld arwyddion o fwy o fuddsoddi mewn rhwydweithiau gwibgyswllt. Mae BT wedi lansio ymgynghoriad ar gyflwyno Ffibr i'r Eiddo (FTTP). Mae CityFibre a Vodafone wedi cyhoeddi cynllun i ymestyn rhwydwaith FTTP i gwmpasu miliwn o gartrefi erbyn 2021 gydag estyniad posibl i bum miliwn o gartrefi. Mae Hyperoptic a Gigaclear wedi cyhoeddi cynlluniau i ehangu eu rhwydweithiau. Yn ogystal, mae Virgin Media yn parhau â'i gynllun Project Lightning.

1.4 Nododd rhai ymatebwyr i'n Hymgynghoriad WLA Mawrth 2017 bryder y gallai BT geisio atal neu leihau cyflwyno rhwydweithiau gwibgyswllt cystadleuol drwy leihau ei ffioedd cyfanwerthu mewn ardaloedd lle yr oedd eraill yn dechrau cyflwyno rhwydweithiau newydd.

1.5 Credwn fod hyn yn achos pryder gan y gallai ymddygiad o'r fath wedi'i dargedu gan BT wanhau achosion busnes cystadleuwyr ar gyfer gosod rhwydweithiau newydd. Mae hyn yn creu risg y gallai cystadleuwyr dorri'n ôl ar gynlluniau buddsoddi mewn ardaloedd daearyddol a dargedwyd gan BT a gallent gael eu hatal rhag buddsoddi mewn ardaloedd eraill gan ragweld ymatebion tebyg wedi'u targedu gan BT. Gallai'r budd i BT o leihau pwysau cystadleuaeth fod yn sylweddol ac rydym o'r farn y gallai fod cymhelliant iddo ymddwyn yn y fath fodd.

1.6 Rydym yn cydnabod y gallai BT ddymuno amrywio'i ffioedd cyfanwerthu rhwng gwahanol ardaloedd am resymau ar wahân i geisio cyfyngu ar gystadleuaeth, er bod BT, yn gyffredinol wedi cynnal prisiau cenedlaethol unffurf ar gyfer rhentu band eang cyflym iawn. Credwn, mewn amgylchiadau lle nad yw cystadleuwyr BT ond yn dechrau cyflwyno rhwydweithiau newydd, bod y perygl o niwed o atal y buddsoddiad hwnnw yn fwy nac unrhyw gostau posibl a allai godi o gyfyngu ar allu BT i gyflwyno disgownt wedi'i dargedu.

---

[1] Cyfeiriwn at Ofcom, 2017. *Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol – Ymgynghoriad ynghylch y farchnad arfaethedig, penderfyniadau ynghylch grym yn y farchnad ac atebion – Cyfrol 1* https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/wholesale-local-access-market-review.

Rydym o'r farn y byddai amrywiadau mewn prisiau cyfanwerthol yn ôl ardaloedd daearyddol yn golygu gwahaniaethu gormodol yn yr amgylchiadau hyn.

1.7 Yn unol â hynny, rydym yn ymgynghori ar gynnig i gyflwyno cymal newydd yn yr amodau SMP drafft i nodi'n benodol y bydd disgownt o'r fath wedi'i dargedu gyfystyr â gwahaniaethu gorfodol. Mewn gwirionedd, byddai hyn yng osod cyfyngiad ar allu BT i amrywio'i ffioedd mynediad lleol cyfanwerthol yn ei ôl troed ffibr i'r cabinet (FTTC), rhwng gwahanol ardaloedd.

## Ymgynghori a'r camau nesaf

1.8 Rydym yn gofyn am sylwadau gan randdeiliaid ar y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn. Y dyddiad olaf ar gyfer ymateb yw 12 Ionawr 2017. Mae Atodiadau 1 i 4 yn nodi'r broses ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad.

1.9 Mae'r cynigion sydd wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad hwn yn rhan o'n cynigion cyffredinol ar gyfer y farchnad WLA yn y DU ac eithrio Ardal Hull. Hyd yma, nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas ag agweddau eraill ar y cynigion a oedd wedi'u nodi yn ein Hymgynghoriad ar Fynediad Lleol Cyfanwerthol ym mis Mawrth 2017. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn gwneud mwy o waith dadansoddi a chasglu gwybodaeth cyn penderfynu ar y camau nesaf sy'n briodol i'w cymryd. Felly rydyn ni'n gofyn am sylwadau gan randdeiliaid ynghylch y cynigion sydd yn y ddogfen ymgynghori hon a'u heffaith ar ein cynigion Mynediad Lleol Cyfanwerthol ym mis Mawrth 2017. Nid ydym, yn y ddogfen hon, yn gofyn am ragor o sylwadau mewn perthynas â'r cynigion cyffredinol a oedd wedi'u nodi yn ein Hymgynghoriad ar Fynediad Lleol Cyfanwerthol ym mis Mawrth 2017.

1.10 Rydym yn disgwyl y byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad terfynol mewn datganiad ddechrau 2018, gyda mesurau newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2018.